Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2025 –2028

cdffc.llyw.cymru
ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC)**

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 –2028**

## 1. Cyflwyniad

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ei waith. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) hwn yn nodi ein hamcanion a'n camau gweithredu ar gyfer 2025–2028, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau penodol i Gymru. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i ohebiaeth ddiweddar gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i welliant parhaus a chysoni â Chyrff Cyhoeddus eraill Cymru.

## 2. Cyd-destun Cyfreithiol a Pholisi

Mae CDFfC yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar gyfer Cymru. Rydym wedi ymrwymo i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, ac erledigaeth anghyfreithlon.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Dyma'r naw nodwedd warchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010:

1. Oedran

2. Anabledd (gan gynnwys anableddau corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, a chudd)
3. Ailbennu rhywedd
4. Priodas a phartneriaeth sifil
5. Beichiogrwydd a mamolaeth
6. Hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw, neu genedligrwydd)
7. Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred)
8. Rhyw
9. Cyfeiriadedd rhywiol

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y strategaeth wrth-hiliaeth, a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru ar rywedd ac LHDTC+, a byddwn yn gweithredu yn unol ag ysbryd y fframweithiau hyn.

## 3. Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Gweledigaeth:
Cymru lle mae prosesau democrataidd ac adolygiadau ffiniau yn hygyrch, yn gynhwysol, ac y mae pob cymuned yn ymddiried ynddynt, beth bynnag fo'i nodwedd warchodedig.

Gwerthoedd:

- Uniondeb a thegwch ym mhob penderfyniad.
- Tryloywder ac atebolrwydd.
- Cydweithredu â chymunedau a phartneriaid.
- Dysgu a gwelliant parhaus.

## 4. Sut y Datblygwyd y Cynllun Hwn

Mae'r CCS hwn yn adeiladu ar adborth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, arfer gorau yn y sector, ac ymgysylltiad â staff, rhanddeiliaid a grwpiau cynrychioliadol. Mae'n cyd-fynd â dulliau sefydliadau cymheiriaid.

## 5. Amcanion a Chamau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

Mae'r holl amcanion a chamau gweithredu yn berthnasol ar draws bob un o'r naw nodwedd warchodedig. Byddwn yn mabwysiadu dull croestoriadol, gan gydnabod y gallai unigolion ddioddef ffurfiau lluosog o anfantais.

### Amcan 1: Cryfhau Ymgysylltiad Cynhwysol mewn Ymgynghoriadau Ffiniau ac Etholiadol

Nod:
Sicrhau bod ymgynghoriadau yn ymgysylltu'n weithredol â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a nas clywir yn aml, fel bod pob cymuned, gan gynnwys y rhai a ddiffinnir gan y naw nodwedd warchodedig gyfle teg i gyfrannu.

Camau Gweithredu:

- Cyd-ddylunio dulliau ymgynghori ac ymgysylltu gyda phartneriaid cymunedol a sefydliadau cynrychioliadol ar gyfer pob grŵp gwarchodedig.
- Darparu deunyddiau ymgynghori mewn fformatau hygyrch (e.e. Hawdd ei Ddeall, fideo Iaith Arwyddion Prydain).
- Treialu sesiynau allgymorth mewn partneriaeth â rhwydweithiau cymunedol i gyrraedd grŵp a nodir fel rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.
- Hyfforddi staff ar ymgysylltu cynhwysol ac ymwybyddiaeth o'r effaith ar gydraddoldeb, gan gyfeirio ar bob nodwedd warchodedig.
- Datblygu cronfa ddata o rwydweithiau cymunedol ar gyfer ymgysylltu parhaus, wedi'i mapio fesul nodwedd warchodedig.
- Sefydlu data sylfaenol ar ymatebwyr i adolygiad Senedd 2030, wedi'u dadgyfuno fesul nodwedd warchodedig.

Dangosyddion Perfformiad:

- Cynnydd canrannol i ymgysylltiad gan o leiaf tri o grwpiau y nodwyd eu bod wedi'u tangynrychioli (yn ôl nodwedd warchodedig).
- Nifer ac amrywiaeth y partneriaid cymunedol sy'n cymryd rhan.

- Nifer y fformatau hygyrch a ddarperir.

**Amcan 2: Gwella Hygyrchedd a Chynhwysiant Gwybodaeth Etholiadol**

Nod:
Gwneud Platfform Gwybodaeth Etholiadau Cymru yn gwbl hygyrch a chynhwysol, yn enwedig i'r rhai ag amhariadau ar y golwg gan gynnwys pobl ddall a rhannol ddall.

Camau Gweithredu:

- Gweithredu safonau hygyrchedd ar draws y platfform a chynnwys digidol, gan ystyried anghenion pob grŵp gwarchodedig.
- Datblygu cynnwys iaith glir, ddwyieithog wedi'i adolygu gan arbenigwyr hygyrchedd a llythrennedd.
- Cynnal profion defnyddwyr gydag unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.
- Sefydlu Grŵp Cynghori ar Hygyrchedd sy'n cynnwys cynrychiolaeth berthnasol.
- Gweithredu mecanwaith adborth ar gyfer rhwystrau hygyrchedd, â data yn cael eu casglu fesul nodwedd warchodedig.

Dangosyddion Perfformiad:

- Cydymffurfiad o 100% â safonau perthnasol erbyn 2027.
- Data ac adborth profion defnyddwyr wedi'u cynnwys mewn adroddiadau i'r Senedd, wedi'u dadgyfuno fesul nodwedd warchodedig.

**Amcan 3: Sefydlu Data Sylfaenol i Asesu Effaith Swyddogaeth Cydnabyddiaeth Ariannol CDFfC**

Nod:
Sefydlu data sylfaenol cadarn ar nodweddion gwarchodedig unigolion mewn swyddi etholedig ar lefel awdurdod lleol, i asesu pa un a yw cydnabyddiaeth ariannol a lwfansau yn dylanwadu ar gyfranogiad, cadw staff, ac amrywiaeth.

Camau Gweithredu:

- Cydweithredu ag awdurdodau lleol, CLILC, a Llywodraeth Cymru i ddylunio fframwaith casglu data sy'n cwmpasu pob nodwedd warchodedig.

- Cynnal ymarfer mapio data i nodi bylchau ac arferion gorau ar gyfer pob nodwedd warchodedig.
- Dadansoddi cysylltiadau rhwng cydnabyddiaeth ariannol, cyfranogiad, ac amrywiaeth, â phwyslais ar nodweddion gwarchodedig.
- Cyhoeddi adroddiad dadansoddi cydraddoldeb ag argymhellion ar gyfer adolygiadau cydnabyddiaeth ariannol ac amcanion cydraddoldeb yn y dyfodol, gan gyfeirio at bob nodwedd warchodedig.

Dangosyddion Perfformiad:

- Cyfradd ymateb o 70% o leiaf gan aelodau etholedig wrth gasglu data sylfaenol (fesul nodwedd warchodedig).
- Cyhoeddi'r adroddiad dadansoddi cyntaf ar ôl etholiadau Llywodraeth Leol 2027.
- Gwelliant blynyddol o fwy na 10% i gyflawnrwydd data (fesul nodwedd warchodedig).
- Argymhellion wedi'u hymgorffori yn y cylch adolygu cydnabyddiaeth ariannol nesaf.

**Amcan 4: Meithrin Gweithlu Amrywiol a Chynhwysol**

Nod:
Denu, recriwtio, a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru ar draws pob nodwedd warchodedig, a chael gwared ar unrhyw fylchau cyflog.

Camau Gweithredu:

- Casglu ac adolygu data cydraddoldeb gweithlu cynhwysfawr, wedi'u dadgyfuno fesul nodwedd warchodedig.
- Adolygu prosesau recriwtio a chynnydd ar gyfer cynhwysiant ar draws bob nodwedd warchodedig.
- Monitro a mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog fesul nodwedd warchodedig.
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant i bob aelod o staff, yn cwmpasu pob nodwedd warchodedig.

Dangosyddion Perfformiad:

- Metrigau amrywiaeth gweithlu o'u cymharu â data'r cyfrifiad (fesul nodwedd warchodedig).
- Adroddiad blwch cyflog rhwng y rhywiau blynyddol adolygiad mewnol
- Canlyniadau arolwg staff ar gynhwysiant a pherthyn.

Sylwer: Yn unol â chanllawiau technegol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ni fydd data cydraddoldeb wedi'u dadgyfuno yn cael eu cyhoeddi, gan fod maint bach gweithlu'r Comisiwn yn golygu y byddai datgelu yn peri risg berthnasol o allu adnabod aelodau staff unigol. Dim ond gwybodaeth wedi'i dadgyfuno nad yw'n caniatáu i bobl gael eu hadnabod fydd yn cael ei hadrodd.

**Amcan 5: Prif Ffrydio Cydraddoldeb wrth Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau**

Nod:
Ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn holl bolisïau, gweithdrefnau, a darpariaeth gwasanaethau CDFfC, â chyfeiriad pendant at bob nodwedd warchodedig.

Camau Gweithredu:

- Prif ffrydio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys pob nodwedd warchodedig ac ystyriaeth economaidd-gymdeithasol a gwrth-hiliaeth.
- Bydd y CCS yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru unwaith bob pedair blynedd o leiaf, neu'n gynharach os yw'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth neu oherwydd newid sefydliadol.

Dangosyddion Perfformiad:

- Adroddiadau blynyddol ar gynnydd i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chyhoeddi ar wefan CDFfC
- Tystiolaeth o ystyriaethau cydraddoldeb ym mhob penderfyniad mawr (fesul nodwedd warchodedig).

## 6.Mapio Amcanion y CCS i'r Nodau Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol CDFfC (2025–2028) yn cefnogi'r nodau hyn drwy ei amcanion cydraddoldeb a'i gamau gweithredu. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae pob amcan CCS yn cyfrannu at lesiant Cymru.

| Amcan y CCS | Nodau Llesiant a Gefnogir |
|---|---|
| **1. Cryfhau Ymgysylltiad Cynhwysol mewn Ymgynghoriadau Ffiniau ac Etholiadol** | Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| **2. Gwella Hygyrchedd a Chynhwysiant Gwybodaeth Etholiadol** | Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| **3. Sefydlu Data Sylfaenol i Asesu Effaith Swyddogaeth Cydnabyddiaeth Ariannol CDFfC** | Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru lewyrchus, Cymru o gymunedau cydlynus |
| **4. Meithrin Gweithlu Amrywiol a Chynhwysol** | Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru lewyrchus, Cymru iachach |
| **5. Prif Ffrydio Cydraddoldeb wrth Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau** | Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru o gymunedau cydlynus |

## 7. Cyhoeddi a Hygyrchedd

- Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan CDFfC a bydd fersiynau hygyrch a hawdd eu deall ar gael.
- Bydd fformatau amgen yn cael eu darparu ar gais.

## 8. Cynllun Gweithredu

### Amcan 1: Cryfhau Ymgysylltiad Cynhwysol mewn Ymgynghoriadau Ffiniau ac Etholiadol

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|
| Cyd-ddylunio dulliau ymgynghori ac ymgysylltu gyda phartneriaid cymunedol | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Medi 2026 | Cynnydd i ymgysylltiad; amrywiaeth partneriaid |
| Darparu deunyddiau ymgynghori mewn fformatau hygyrch | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Parhaus | Nifer y fformatau hygyrch |
| Treialu sesiynau allgymorth | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Rhagfyr 2026 | Lefelau cyfranogiad |
| Hyfforddi staff ar ymgysylltu cynhwysol | Pennaeth Busnes | Mawrth 2027 | Cwblhau a gwerthuso hyfforddiant |
| Datblygu cronfa ddata o rwydweithiau cymunedol | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Mehefin 2027 | Sefydlu’r gronfa ddata |
| Sefydlu data sylfaenol ar ymatebwyr | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Mawrth 2028 | Cwblhau’r set ddata sylfaenol |

### Amcan 2: Gwella Hygyrchedd a Chynhwysiant Gwybodaeth Etholiadol

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|
| Gweithredu safonau | Pennaeth Iechyd Democrataidd | Hydref 2026 | Cydymffurfiad o 100% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| hygyrchedd digidol | | | |
| Datblygu cynnwys iaith glir, ddwyieithog | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Mawrth 2027 | Cynnwys wedi'i ddilysu gan arbenigwyr |
| Cynnal profion defnyddwyr | Pennaeth Iechyd Democrataidd | Mehefin 2027 | Adborth wedi'i gynnwys |
| Sefydlu Grŵp Cynghori ar Hygyrchedd | Pennaeth Iechyd Democrataidd | Medi 2027 | Grŵp wedi'i sefydlu |
| Gweithredu mecanwaith adborth | Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Rhagfyr 2027 | Dadansoddiad blynyddol |

**Amcan 3: Sefydlu Data Sylfaenol i Asesu Effaith Swyddogaeth Cydnabyddiaeth Ariannol CDFfC**

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|
| Cydweithredu i ddylunio fframwaith data | Prif Weithredwr | Rhagfyr 2026 | Fframwaith wedi'i fabwysiadu |
| Cynnal ymarfer mapio data | Pennaeth Iechyd Democrataidd | Mehefin 2027 | Dadansoddiad o fylchau |
| Dadansoddi cysylltiadau cydnabyddiaeth ariannol | Pennaeth Iechyd Democrataidd | Rhagfyr 2027 | Dadansoddiad wedi'i gwblhau |
| Cyhoeddi adroddiad dadansoddi cydraddoldeb | Prif Weithredwr | Mawrth 2028 | Adroddiad wedi'i gyhoeddi |

**Amcan 4: Meithrin Gweithlu Amrywiol a Chynhwysol**

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygu data cydraddoldeb gweithlu | Pennaeth Busnes | Sylfaen Mawrth 2026; blynyddol | Metrigau wedi'u cymharu â'r cyfrifiad |
| Adolygu prosesau recriwtio | Prif Weithredwr | Medi 2026 | Argymhellion wedi'u gweithredu |
| Monitro gwahaniaethau cyflog | Pennaeth Busnes | Blynyddol o 2026 | Dadansoddiadau bwlch cyflog |
| Darparu hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant | Pennaeth Busnes | Rhagfyr 2026; adnewyddu yn 2027 | Cyfraddau cwblhau |

**Amcan 5: Prif Ffrydio Cydraddoldeb wrth Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau**

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|
| Ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Prif Weithredwr | Mehefin 2026 | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau |
| Integreiddio ystyriaethau economaidd-gymdeithasol a gwrth-hiliaeth | Prif Weithredwr | Rhagfyr 2026 | Templedi wedi'u diweddaru |
| Adolygu a diweddaru'r CCS | Prif Weithredwr | Mawrth 2028 | CCS wedi'i ddiweddaru |
| Darparu tystiolaeth o ystyriaethau cydraddoldeb | Prif Weithredwr | Parhaus | Adroddiadau blynyddol |